


*'Oni heuir, ni fedir'*

Pecyn Recriwtio

# DIRPRWY BENNAETH 3-19

## YSGOL BRO TEIFI



# Hysbyseb

**DIRPRWY BENNAETH 3-19**

**Cyflog: Graddfa Arweinyddiaeth L16 –L20**

**Swydd llawn amser a pharhaol o Fedi 2024**

Dymuna Corff Llywodraethol Ysgol Bro Teifi benodi Dirprwy Bennaeth ymroddedig a gweithgar sydd a'r wybodaeth, sgiliau a'r profiad i ymuno a thîm arwain yr ysgol lwyddiannus hon.

Mae Ysgol Bro Teifi ar flaen y gad o ran arloesi a chyffro addysgol. Rydym yn gwahodd ceisiadau gan arweinwyr profiadol sy'n angerddol ac ysbrydoledig, i adeiladu ar ein sylfaen gref a llywio'r ysgol hapus hon i mewn i'r dyfodol.



Sefydlwyd Ysgol Bro Teifi, yr ysgol dysgu gydol oes cyfrwng Cymraeg arloesol yng Nghymru, yn dilyn buddsoddiad o £29.5m gan Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ymfalchïo mewn cynnig cyfleusterau dysgu o’r radd flaenaf i’n holl ddisgyblion ac yn ei hystyried yn fraint i fod yn arloeswyr addysgol ym Mro Teifi. Yma, rydym yn darparu taith addysgol ddi-dor i’n disgyblion o dan yr un to, gyda’n gweithredoedd yn cael eu dylanwadu’n ddwfn gan ein harwyddair, gan sicrhau bod gwaith caled ac ymroddiad wrth galon llwyddiant ein cymuned.

Mae ein hymagwedd addysgol wedi'u gwreiddio'n gadarn yn yr egwyddorion sylfaenol canlynol:

- Sicrhau safonau dysgu ac addysgu rhagorol i ddatgloi potensial llawn pob disgybl a'u paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.
- Cefnogi pob disgybl i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cryf i gael mynediad i’r cwricwlwm cyfan.
- Creu amgylchedd addysgol lle mae staff a disgyblion yn awyddus i arloesi, gan ystyried heriau fel cyfleoedd ar gyfer dysgu a thwf.
- Meithrin ymdeimlad o falchder ac ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg, ei diwylliant, ei thraddodiadau, a’i threftadaeth, gan osod y sylfaen ar gyfer ehangu gorwelion a deall perthynas Cymru ag Ewrop a’r byd.
- Adeiladu partneriaeth lwyddiannus rhwng yr ysgol, rhieni, a chymuned ehangach Bro Teifi i gyfoethogi dysgu disgyblion.



Mae’r ysgol yn gwasanaethu dalgylch gwledig eang, gyda disgyblion yn dod o bentrefi amaethyddol a threfi marchnad Dyffryn Teifi. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd megis Llandysul, Aberbanc, Coedybryn, a Phontsian ar gyfer ein disgyblion oed cynradd, ac mae’n ymestyn i ardaloedd de orllewin Ceredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer ein disgyblion oed uwchradd.

Mae gan yr ysgol 362 o ddisgyblion cynradd a 512 o ddisgyblion uwchradd, gyda 10% o ddisgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim.

Rydym yn chwilio am Bennaeth Cyfadran sydd wedi ymrwymo’n ddwfn i gwerthoedd a’r egwyddorion yr ysgol ac sy’n frwd dros addysg Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu ymweliad â’r ysgol, cysylltwch â’r Pennaeth, Mr Gareth Evans ar EvansG304@broteifi.ceredigion.sch.uk.

Mae Ceredigion yn cynnig ansawdd bywyd uchel a’r cyfle i fyw yn un o siroedd mwyaf prydferth Cymru.

I ddarganfod mwy am Geredigion, ewch i: www.darganfodceredigion.cymru




# Y Broses Ymgeisio

**Dyddiad Cau: Dydd Mercher, 13 Mai, 2024**

**Cyfweliadau: Dydd Mercher, 17 Mai, 2024**

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i Gyngor Sir Ceredigion. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn, a byddant yn cymryd camau i ddiogelu'u lles a chydnabod eu hawl i gael eu hamddiffyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ethos cyffredinol yr holl ysgolion. Bydd angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.

Gofynnir i ymgeiswyr sicrhau eu bod ar gael ar 15 Mai ar gyfer y cyfweliadau



# Swydd Ddisgrifiad

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Bro Teifi yn awyddus i benodi unigolyn ymroddedig a brwdfrydig gyda sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth ragorol i ymgymryd â rôl Dirprwy Bennaeth yr ysgol. Mewn cydweithrediad â'r Pennaeth, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu arweinyddiaeth i'r ysgol gan sicrhau addysg o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- meddu ar y weledigaeth, yr egni a'r uchelgais i ysbrydoli eraill
- angerddol dros lwyddiant plant a phobl ifanc
- addysgwr rhagorol
- medru arwain timau a chydweithio'n effeithiol ag eraill
- gosod esiampl gadarnhaol i staff a disgyblion

Fel aelod o Dim Arwain yr ysgol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus, fel pob aelod o'r Tîm yn rhannu nifer o gyfrifoldebau a dyletswyddau generig megis:

- cymryd rhan mewn prosesau monitro, datblygu a chynnal safonau
- sicrhau ymddygiad rhagorol gan ddisgyblion
- sicrhau safonau dysgu ac addysgu uchel
- arwain gwasanaethau a chymryd dyletswyddau goruchwyliol
- hyrwyddo'r ysgol yn gyhoeddus
- sicrhau diogelwch pawb sy'n rhan o'r ysgol

Er bod gan aelodau'r Uwch Dîm Arwain eu dyletswyddau unigol, disgwylir cyd-ddealltwriaeth ar draws y grŵp or dyletswyddau hynny ar materion sydd yn eu parthau unigol. Byddant yn cyfrannu'n gorfforaethol tuag at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau ac yn creu ethos lle mae addysgu a dysgu yn ffynnu ac yn galluogir ysgol i symud ymlaen at y lefel nesaf o ragoriaeth.

Er y bydd union gyfrifoldebau'r swydd yn ddibynnol ar meysydd o gryfder proffesiynol a phrofiad yr ymgeisydd llwyddiannus, croesewir ceisiadau yn benodol wrth arweinwyr sydd a phrofiad o arwain datblygiad cwricwlwm a sydd a dealltwriaeth gadarn o systemau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant.

Mae'r penodiad yn unol ag amodau presennol y ddogfen "Amodau a Thâl Athrawon Ysgol", ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth bresennol arall yn ymwneud ag addysg a chyflogaeth, gan gynnwys safonau proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a ddaeth i rym o 1 Medi 2018.

Adolygir y swydd ddisgrifiad yn rheolaidd a gall gael ei newid ar unrhyw adeg yn dilyn ymgynghoriad gyda deiliad y swydd.  Nid yw'r disgrifiad swydd hon yn dangos yr holl dasgau ond mae'n gosod y prif ddisgwyliadau yn unol â chyfrifoldebau deiliad y swydd.

# Manyleb y Person

## Cymwysterau

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| • Statws Athro Cymwysedig<br>• Gradd neu gymhwyster gyfatebol | • Gradd uwch / cymhwyster ôl-radd mewn addysg/arweinyddiaeth.<br>• CPCP neu ymrwymiad i ymgymryd â chymhwyster CPCP / Wedi eu hyfforddi |

## Gwybodaeth, Profiad a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br>• Gwybodaeth o faterion yn ymwneud â rôl uwch arweinydd.<br>• Profiad o arwain a rheoli blaengareddau ysgol gyfan yn llwyddiannus.<br>• Profiad o ddefnydd o ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys data, at ddibenion sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant.<br>• Profiad o gynllunio strategol a gweithredu llwyddiannus.<br>• Profiad o arwain eraill wrth ddatblygu cwricwlwm addas i bwrpas, blaengar a chyffrous.<br>• Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth ynghyd â materion a datblygiadau addysgol cyfredol.<br>• Gwybodaeth gadarn o weithdrefnau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.<br>• Profiad o arwain sesiynau hyfforddiant a chynllunio rhaglenni DPP i eraill<br>• Gwybodaeth o'r tirwedd addysgol ehangach mewn perthynas ag addysgeg, arweinyddiaeth, ymchwil a phrosesau arolygu. | • Profiad cyfredol o uwch arweinyddiaeth mewn ysgol pob oed.<br>• Profiad o fentora neu goetsio aelodau Staff.<br>• Profiad o weithio gyda a chefnogi Corff Llywodraethol ysgol.<br>• Gwybodaeth o brosesau ym ymwneud a llais y dysgwyr. |

## Sgiliau a Rhinweddau Personol

Hanfodol

- Y gallu i arwain a rheoli yn effeithiol mewn perthynas a chodi safonau ym mhob agwedd o fywyd ysgol
- Y gallu i dynnu pobl at ei gilydd i weithio fel tîm.
- Y gallu i feithrin a chynnal disgwyliadau uchel ymhlith cydweithwyr.
- Ymrwymiad llawn i addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Y gallu i gyfathrebu yn ardderchog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Y gallu i weithio i derfynau amser tynn.
- Sgiliau rhyngbersonol ardderchog.
- Y gallu i arddangos sgiliau trefnu a gweinyddiaeth effeithiol.
- Y gallu i fod yn greadigol ac i weithredu yn arloesol er mwyn sicrhau'r profiadau gorau i ddysgwyr.
- Ymrwymiad llwyr i'r dysgwyr a'u dysgu, eu lles a'u diogelwch.
- Y brwdfrydedd a'r egni i sicrhau llwyddiant Ysgol Bro Teifi ac i ddatblygu ei henw da o fewn y gymuned.
- Medrau TCGh wedi eu datblygu yn gadarn.
- Hyder i gyflwyno i gynulleidfaoedd.

## Eraill

Hanfodol

- Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg
- Cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth
- Gwiriad DBS Manwl
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau diogelu mewn ysgolion.

# Ein Blaenoriaethau 2023-24

**Cwricwlwm Bro Teifi**
Parhau i ddatblygu Cwricwlwm sy’n darparu cyfleoedd cyfoethog ac yn datblygu disgyblion o fewn y 4 diben.

**Safonau**
Sicrhau’r safonau gorau posib i’r holl ddisgyblion gan gynnwys mewn arholiadau allanol ac i ddysgwyr difreintiedig.

**Llythrennedd (Darllen)**
Cryfhau medrau darllen ein holl ddysgwyr drwy ymestyn a datblygu’r ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

**Cynnydd**
Hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy ddatblygu dulliau effeithiol o asesu ac ymateb i adborth ar draws yr ysgol.


**Dysgu ac Addysgu**
Datblygu model addysgeg effeithiol o fewn yr ysgol er mwyn anelu at ddiwylliant o her a chefnogaeth uchel.

**Presenoldeb**
Gwella presenoldeb disgyblion gan gynnwys disgyblion sydd o dan anfantais.

**Llais y Disgybl a Rhieni**
Cryfhau llais y disgybl a llais rhieni/gofalwyr er mwyn rhoi mwy o ddylanwad iddynt ar benderfyniadau yn yr ysgol.

**Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol**
Datblygu gweithdrefnau i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol ymysg dysgwyr er mwyn caniatau cynnydd.

**Arweinyddiaeth**
Cefnogi arweinwyr wrth werthuso gwaith yr ysgol er mwyn adnabod cyfleoedd i symud yr ysgol ymlaen.



## Yr Iaith a Diwylliant Cymreig ym Mro Teifi

Y Gymraeg ydy prif gyfrwng holl fywyd a gwaith Ysgol Bro Teifi gyda'r nod o sicrhau bod pob disgybl yn medru'r ddwy iaith yn drylwyr hyd at eithaf ei allu / gallu erbyn gadael yr ysgol. Cyflwynir Saesneg i ddisgyblion yn y cwricwlwm pan mae'r disgybl yn 7 mlwydd oed. Mae Ysgol Bro Teifi yn gweithredu ar yr amcanion canlynol:

- sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n naturiol yn y ddwy iaith.
- meithrin ymwybyddiaeth a balchder yn niwylliant, traddodiadau ac etifeddiaeth Cymru ymysg ein disgyblion a fydd yn sail i ehangu eu gorwelion, eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o gydberthynas Cymru ag Ewrop a'r byd.
- galluogi ein disgyblion i gynnig am swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol neu'n fanteisiol.

## Ein Gwerthoedd Craidd

Mae ein gwerthoedd craidd wedi eu gwreiddio yn arwyddair yr ysgol "oni heuir, ni fedir". Heb waith caled, ni ddaw llwyddiant. Mae hyn nid yn unig yn berthnasol i gyflawniad academaidd ond hefyd i ddatblygiad personol, moesol ac ysbrydol ein dysgwyr.

Yn ychwanegol, rydym yn disgwyl i ddysgwyr i arddangos ymddygiadau sy'n cefnogi ein gwerthoedd ar bob adeg sef:






YSGOL BRO TEIFI

www.ysgolbroteifi.cymru
01559362503